**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 6 o DACHWEDD 2023 YN NEUADD PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH**

**Presennol:** Tyssul Evans (Cadeirydd yn y gadair) ,Caroline Williams, Ian Evans, Aled Williams, Margaret Rees, Geraint Rosser, Meic Bowen , Delyth Thomas, Linda Williams, Alan Lewis, Cynghorydd Sir Meinir James a'r Clerc,Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Heddwyn Jones a Tracey James.

**3092** Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

**3093 Cofnodion**
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 02/10/2023 fel rhai cywir.

**3094 Materion yn codi.**
Tud 1. Cofnod Rhif 3073 - Clwb Cymdeithasol Carwe. - Mae'r broses o drosglwyddo'r mater i'r Ombwdsmon wedi dechrau.
Tud 1. Cofnod Rhif 3073 - Rhodfa Ceffylau – Arhoswn am adroddiad oddiwrth y Swyddog priodol yn y Cyngor Sir.
Tud 1. Cofnod Rhif 3073 - Ysgol Glanmor - Arhoswn am Gyfarfod gyda'r Cyngor Sir.
Tud 2. Cofnod Rhif 3090 – Blwch Post ger Brongwendraeth, Carwe – Y Mater yn nwylo 'r Post Brenhinol.

**Gohebiaeth**

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

**3095** Clwb Pêl-droed a Chriced Carwe - Safle Ailgylchu - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

**3096** Clwb Pêl-droed a Chriced Carwe - Trydan yn Barc Carwe - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £151.24.

**3097** Elusen Ambiwlans Awyr Cymru – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

**3098** Ebeneser Crwbin – Llythyr yn diolch am y rhodd.

**3099** Bethel Llangyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

**3100** Macmillan Cancer – Llythyr yn diolch am y rhodd.

**3101** Moreia Meinciau – Llythyr yn diolch am y rhodd.

**3102** Nasareth Pontiets - Llythyr yn diolch am y rhodd.

**3103** Cerebral Palsy – Llythyr yn diolch am y rhodd.

**Ceisiadau Cynllunio**

**3104**
DIM CEISIADAU

.**Gwaharddiad y Cyhoedd**

**3105  Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol.**

**Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis**

**3106** Derbyniwyd adroddiadau ariannol Mis Hydref. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

**3107    Peilonau Dyffryn Tywi**

Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd a'r Clerc ynglŷn â'r Cyfarfod Cyhoeddus llwyddiannus a gynhaliwyd yn Neuadd Eglwys Llangyndeyrn ar Nos Iau, 26/10/23 am 7.30 o'r gloch. Diolchwyd i bawb a chyfrannodd i'r drafodaeth at y noson

**3108    Blychau Pleidleisio**

Derbyniwyd Llythyr oddiwrth y Cyngor Sir yn datgan eu bwriad i ddileu rhai o Orsafoedd Pleidleisio yn y Sir yn cynnwys yr un yn Salem Pedair Heol. Bydd yr etholwyr lleol yn pleidleisio yn Neuadd Pontiets. Nodwyd y Llythyr.

**3109    Parc Pontiets**

Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynglŷn â'r datblygiadau yn y Parc. Penderfynwyd trosglwyddo'r ail gyfran o £10000 i'r Pwyllgor a diolchwyd iddynt am eu gwaith arbennig ynglŷn â'r mater.

**Cyfarfod nesaf:- 4 o Rhagfyr 2023 - Neuadd Pontiets**

**Llofnodwyd……………………………………………. CADEIRYDD**

**Dyddiad…………………………………………………**